# Asesiad Strwythuredig 2022 – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3274A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Trefniadau cynllunio strategol 14

Rheoli adnoddau ariannol 17

Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd ac asedau ffisegol eraill 21

Atodiadau

Atodiad 1 – Ymagwedd archwilio 26

Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 28

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2022 yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

2 Digwyddodd ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a achoswyd gan argyfwng iechyd y cyhoedd ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd da, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol IGDC ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; ei drefniadau cynllunio strategol; ei drefniadau rheolaeth ariannol; a threfniadau i reoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Caiff yr ymagwedd a fabwysiadwyd gennym i wneud ein gwaith ei chrynhoi yn **Atodiad 1**.

## Negeseuon allweddol

4 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **mae IGDC yn gwreiddio trefniadau llywodraethu da, a rhaid iddo fynd ati yn awr i ddatblygu ei rôl fel partner digidol dibynadwy ymhellach i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer gwasanaethau a hwylusir gan dechnoleg ddigidol ledled Cymru**.

5 Mae trefniadau IGDC yn galluogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau i gynnal eu busnes yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda, gydag ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir yn cefnogi craffu a herio effeithiol gan Aelodau Annibynnol. Mae gan IGDC gynlluniau ar waith i wneud defnydd cynyddol o storïau cleifion a staff i amlygu gwersi a chefnogi gwelliant.

6 Mae'r Bwrdd yn dechrau sefydlogi yn dilyn nifer o benodiadau allweddol i'r Tîm Gweithredol a'r cnewyllyn o Aelodau Annibynnol. Mae IGDC wedi rhoi comisiwn i ddarparwr allanol gefnogi datblygiad a chydlyniant y Bwrdd yn dilyn y newidiadau hyn. Mae IGDC wedi datblygu a gwreiddio systemau sicrwydd priodol, yn enwedig o ran fframwaith sicrwydd y bwrdd a'i fframweithiau rheoli risg a pherfformiad. Ceir

ymagwedd dda at hunanadolygu a gwella gan y Bwrdd a'i bwyllgorau, ac mae trefniadau i gefnogi datblygiad Aelodau Annibynnol yn cryfhau.

7 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) IGDC 2022-25 yn nodi'n glir beth yw ei weledigaeth a'i amcanion strategol dros y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd o ran datblygu strategaeth hirdymor y sefydliad. Mae gan y sefydliad ymagwedd dda at gynllunio, ac mae trefniadau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch cynlluniau a strategaethau corfforaethol yn gwella. Mae strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn amlinellu amcanion a deilliannau strategol yn glir, a hynny'n cael ei ategu gan drefniadau priodol i gynnal goruchwyliaeth ar gyflawni cynlluniau. Fodd bynnag, mae diffyg dyddiadau a cherrig milltir targed mewn rhai cynlluniau a strategaethau corfforaethol yn rhwystr i fonitro cynnydd yn effeithiol.

8 Mae trefniadau IGDC ar gyfer sicrhau sefyllfa ariannol fantoledig yn dda. Er bod ganddo drefniadau cynllunio ariannol da, mae ei fodel cyllido ar gyfer blaenoriaethau digidol a'i ddibyniaeth ar arbedion anghylchol yn achos pryder. Yn gyffredinol, mae gan IGDC reolaethau ariannol effeithiol, a threfniadau monitro ac adrodd effeithiol, gyda gweithgarwch cymesur gan Aelodau Annibynnol i graffu ar wybodaeth ariannol a'i herio. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd geisio mwy o sicrwydd bod risgiau i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig a hwy'n cael eu rheoli'n effeithiol.

9 Mae IGDC yn blaenoriaethu lles staff ac yn darparu peth sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ei fod yn cael ei gefnogi'n ddigonol. Fodd bynnag, bydd angen i risgiau mewn perthynas â swyddi gwag a recriwtio staff gael eu rheoli'n briodol i sicrhau nad oes effaith anffafriol ar y gweithlu cyfredol. Mae'r CTCI yn amlinellu ymagwedd ddigidol IGDC hyd at 2025, ac mae ansawdd adroddiadau'n darparu digon o sicrwydd ynghylch y cynnydd y mae'r sefydliad yn ei wneud gyda'i seilwaith cenedlaethol a chyflawni cynhyrchion a rhaglenni cenedlaethol. Mae gan y Bwrdd Gynllun Ystadau a Strategaeth Ddatgarboneiddio y cytunwyd arnynt gyda threfniadau llywodraethu priodol i oruchwylio'r rhain, ond mae angen iddo gryfhau ei oruchwyliaeth ar reoli a rheolaeth ar asedau ffisegol.

## Argymhellion

10 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr IGDC i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2022**

**Dyddiadau a cherrig milltir targed mewn cynlluniau a strategaethau corfforaethol**

A1 Er bod y CTCI 2022-25 a'r Cynllun Busnes cysylltiedig wedi'u hategu gan ddyddiadau a cherrig milltir targed clir, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar

gyfer cynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill. Felly dylai IGDC sicrhau bod yr holl gynlluniau a strategaethau corfforaethol wedi'u tanategu gan gynlluniau cyflawni manwl sy'n cynnwys dyddiadau a cherrig milltir targed i hwyluso proses effeithiol i fonitro cynnydd a sicrhau sicrwydd a chraffu priodol ar lefel y Bwrdd.

**Cynaliadwyedd ariannol**

A2 Mae angen i drefniadau ar gyfer rheoli risgiau yn y tymor canolig a hir i gyllid ac arbedion fod yn fwy gweladwy ar lefel y Bwrdd. Felly dylai IGDC sefydlu trefniadau i:

a. dangos, trwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ei fod wrthi'n rheoli'r risgiau yn y tymor canolig a hir sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd model y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol; a

b. darparu mwy o sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch datblygu a chyflawni arbedion cylchol yn y tymor canolig a hir i gryfhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol.

**Rheoli asedau ffisegol**

A3 Ar wahân i adroddiadau Archwilio Mewnol yn y maes hwn, nid yw'r Bwrdd na'i bwyllgorau'n cael sicrwydd arall ynghylch rheoli asedau ffisegol IGDC. Felly, dylai IGDC fynd ati o bryd i'w gilydd i ddarparu adroddiadau sicrwydd ar gyfer y Bwrdd neu'r pwyllgor perthnasol bod ei asedau ffisegol (dros werth penodol a/neu mewn perygl o gael eu camddefnyddio) yn cael eu rheoli'n dda.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau llywodraethu IGDC, gyda ffocws arbennig ar:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau;
- i ba raddau y mae dyluniad sefydliadol yn ategu llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

12 Canfuom fel a ganlyn: **ar y cyfan, mae IGDC yn cael ei arwain yn dda ac mae wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran sefydlu a gwreiddio trefniadau priodol i ategu llywodraethu da.**

### Effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau

13 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cynnal eu busnes yn effeithiol ac yn ategu llywodraethu da. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n dangos lefelau priodol o dryloywder cyhoeddus;
- a yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn briodol gan gael eu hategu gan Gynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chofrestrau o Fuddiannau eglur;
- a oes strwythur pwyllgorau sy'n briodol ac yn gweithio'n dda islaw'r Bwrdd;
- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cael yr wybodaeth gywir, gan gynnwys barn gan staff a defnyddwyr gwasanaethau; ac
- a oes tystiolaeth o hunanadolygu digonol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.

14 Canfuom fel a ganlyn: **mae IGDC yn gwreiddio trefniadau llywodraethu da a thryloyw, ac mae ganddo gynlluniau i gryfhau ei ddefnydd o adborth gan staff a chleifion i gefnogi dysgu a gwella.**

15 Mae IGDC yn dangos lefelau da o dryloywder cyhoeddus. Er bod holl gyfarfodydd y Bwrdd, pwyllgorau a grwpiau cynghori'n dal i gael eu cynnal yn rhithwir, dim ond cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd sy'n cael eu ffrydio'n fyw. Fodd bynnag, mae recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cyhoeddi ar wefan IGDC o fewn deuddydd, ac eithrio cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Lleol a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth oherwydd natur sensitif a chyfrinachol yr wybodaeth y maent yn ei thrafod.

16 Mae Aelodau Annibynnol yn darparu her effeithiol ar ddefnyddio cyfarfodydd preifat i sicrhau bod cymaint o fusnes â phosibl yn cael ei ystyried yng ngŵydd y cyhoedd. O ganlyniad, mae cyfarfodydd preifat yn gyfyngedig i faterion sensitif a chyfrinachol yn unig. Canfuom fod yr holl gyfarfodydd preifat a gynhaliwyd hyd yma'n briodol, gyda thystiolaeth dda o IGDC yn cyhoeddi cofnodion cryno ar ei wefan i alluogi tryloywder. I wella tryloywder ymhellach, efallai yr hoffai IGDC ystyried cynnwys

materion a fydd yn cael eu trafod yn breifat ar agendâu cyhoeddus y Bwrdd a phwyllgorau.

17 Mae'r papurau ar gyfer yr holl gyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan IGDC wythnos ymlaen llaw yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Ers mis Gorffennaf 2022, mae IGDC wedi dechrau gwneud defnydd arloesol o godau QR i alluogi'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i gael mynediad ar unwaith at bapurau'r Bwrdd o ddyfais ddigidol. Mae IGDC yn bwriadu cyflwyno'r ymarferoldeb hwn i gyfarfodydd pwyllgorau a grwpiau cynghori yn 2023.

18 Mae trefniadau IGDC o gymorth i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol. Mae Rheolau Sefydlog, Cynlluniau i Gadw Pwerau yn Ôl a'u Dirprwyo, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i gyd wedi'u diweddaru ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd Rheoli, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Bwrdd. Cymerir datganiadau o fuddiant ar ddechrau pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Mae trefniadau priodol yn eu lle hefyd ar gyfer cyflwyno datganiadau o fuddiant gan aelodau o'r Bwrdd a staff mewn swyddi Band 8a ac uwch, ymdrin â hwy a'u cofnodi. Mae'r cofrestrau ar gael ar wefan IGDC. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i gael ei hadolygu fel rhan o'r adroddiad ar safonau ac ymddygiadau, sydd hefyd yn cynnwys manylion rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd.

19 Mae Bwrdd IGDC yn dechrau sefydlogi yn dilyn nifer o newidiadau yn ystod y flwyddyn. Mae penodiadau parhaol wedi cael eu gwneud bellach i'r uwch swyddi allweddol canlynol:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (a ddechreuodd ym mis Ebrill 2022);
- Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (a ddechreuodd ym mis Mai 2022);
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2022); a hefyd
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (sy'n dechrau ym mis Ionawr 2023).

Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, mae'r amser a gymerwyd i wneud penodiadau i'r swyddi allweddol hyn wedi effeithio ar gyflymder cyflawni rhai amcanion sefydliadol, megis bwrw ymlaen â gwaith ar strategaeth hirdymor IGDC. Ymunodd dau Aelod Annibynnol newydd â'r Bwrdd ym mis Medi 2022 hefyd. Mae IGDC wedi rhoi comisiwn i Deloitte wneud gwaith i gefnogi datblygiad a chydlyniant y Bwrdd.

20 Mae'r Bwrdd a phwyllgorau'n gweithio'n effeithiol. Mae ganddynt gylchoedd gorchwyl wedi'u diweddaru ac maent yn cadw logiau gweithredu cynhwysfawr a chylchoedd busnes blynyddol. Mae cadeiryddion y Bwrdd a phwyllgorau'n chwarae rhan weithredol yn y broses o bennu agendâu, ac mae'r agendâu a baratoir ar gyfer cyfarfodydd yn cynnwys cydbwysedd da ac yn canolbwyntio'n briodol ar fusnes perthnasol.

21 Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu rheoli'n dda gan eu priod gadeiryddion, sy'n galluogi trafodaeth am faterion allweddol ac yn annog pob aelod i gyfrannu. Mae aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau'n ymlynu'n dda wrth ganllawiau IGDC ar foeseg cyfarfodydd rhithwir. Ceir trefniadau da hefyd ar gyfer cyfieithu ar y pryd i alluogi aelodau ac eraill i gyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. Darperir trawsgrifiad Saesneg ar wefan IGDC yn dilyn pob cyfarfod.

22 Mae cyfarfodydd yn dangos diwylliant agored a thryloyw, sy'n dystiolaeth o'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol sy'n bodoli rhwng aelodau'r bwrdd. Mae Aelodau Annibynnol yn gwneud defnydd da o'u profiadau blaenorol yn y sectorau cyhoeddus a masnachol i graffu a herio'n gadarn. Ar y cyfan, mae'r craffu a wneir yn briodol o ran ei natur strategol. Fodd bynnag, canfuom nifer fach o achosion lle'r oedd i'w weld fel pe bai'n crwydro ychydig yn ormodol i mewn i fanylder gweithredol.

23 Mae IGDC wedi sefydlu trefniadau da i sicrhau ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a phwyllgorau. Mae papurau wedi'u strwythuro'n dda ar y cyfan ac yn ddigon hir. Nid ydynt yn rhy fanwl na thechnegol, ac maent yn cyfeirio'r darllenydd yn glir at risgiau allweddol a materion y mae angen eu hystyried sydd, yn ei dro, yn ategu prosesau craffu, sicrwydd a phenderfynu effeithiol. Mae adroddiadau esboniadol yn dilyn fformat SBAR[1], ac mae asesiadau effaith yn cael eu cwblhau'n rheolaidd, gan ymdrin ag ystod o feini prawf gan gynnwys amcanion strategol, y pum ffordd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[2], safonau ansawdd IGDC a chydraddoldeb.

24 Ceir trefniadau effeithiol i gefnogi llifoedd sicrwydd a'r arfer o gyfeirio gwybodaeth a risgiau rhwng pwyllgorau, ac o bwyllgorau i fyny at y Bwrdd. Mae pwyllgorau'n trafod eitemau i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd ar ddiwedd pob cyfarfod ac yn cyflwyno adroddiadau amlygu rheolaidd sy'n crynhoi'r materion allweddol a drafodwyd, penderfyniadau a wnaed, risgiau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ac unrhyw gamau gweithredu dirprwyedig a gymerwyd. Er bod yr adroddiadau hyn yn ymddangos yn olaf ar agenda'r Bwrdd, maent yn cael sylw priodol ac mae aelodau'r Bwrdd yn cael digon o gyfleoedd i ofyn cwestiynau neu wneud sylwadau.

25 Er bod IGDC wedi sefydlu trefniadau gwrando a dysgu, nid ydynt wastad yn rhoi digon o ddealltwriaeth i aelodau'r Bwrdd am brofiadau staff, defnyddwyr gwasanaethau a chleifion. Yn lle hynny, maent yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau neu gyflawni rhaglenni. O ganlyniad, mae cyfleoedd i amlygu gwersi gwerthfawr a gwella ansawdd gwasanaethau'n cael eu colli. Mae gwaith i fynd i'r afael â hyn yn mynd rhagddo; fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr

[1] Sefyllfa, Cefndir, Asesiad ac Argymhelliad (Situation, Background, Assessment, a Recommendation).

[2] Y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys a hirdymor.

heriau y mae hyn yn eu cyflwyno i IGDC fel sefydliad nad yw'n rhoi gofal yn uniongyrchol i gleifion.

26 Er mai defnydd cyfyngedig o storïau staff sydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd, mae mecanweithiau da ar waith i rannu gwybodaeth ar draws y sefydliad gan gynnwys cylchlythyrau staff 'mewnol', erthyglau 'mewnwelediadau'r bwrdd', a chyfarfodydd TenTalks[3] y ceir nifer dda'n bresennol ynddynt. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi trefnu sesiwn droedio arbrofol ar gyfer Aelodau Annibynnol yn canolbwyntio ar y 'ddesg wasanaeth', a allai ddarparu model da yn y dyfodol.

27 Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi gweithgarwch hunanadolygu a gwerthuso gan y Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Bwrdd, pwyllgorau a grwpiau cynghori wedi asesu a thrafod eu heffeithiolrwydd, ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella. Fe wnaed cynnydd da hyd yma o ran cyflawni'r gwelliannau a adnabuwyd, gyda phob cam gweithredu ond un wedi'u cwblhau.

28 Mae gan IGDC drefniadau sefydlu lleol effeithiol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol. Ceir proses arfarnu ffurfiol ar gyfer Aelodau Annibynnol ac mae cynlluniau yn yr arfaeth i gyflwyno asesiadau 360 gradd ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Er bod IGDC wedi sefydlu a chyflwyno Sesiynau Datblygu'r Bwrdd, a'r rheiny'n cwmpasu ystod o bynciau, cymysg fu'r ymateb iddynt o blith aelodau'r Bwrdd. Mae Rhaglen Datblygu'r Bwrdd ategol sy'n canolbwyntio ar Ddatblygiad Sefydliadol y Bwrdd wrthi'n cael ei datblygu gan Deloitte, fel a nodwyd ym mharagraff 19.

## Dyluniad sefydliadol

29 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae strwythur sefydliadol IGDC yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Gweithredol yn glir, ac a oes ganddynt bortffolios gwaith cytbwys a theg;
- a oes eglurder ynghylch rôl Ysgrifennydd y Bwrdd, ac a oes adnoddau digonol yn eu lle i ategu gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau; ac
- a yw'r strwythur sefydliadol yn ategu llywodraethu effeithiol ac yn hwyluso trefniadau gweithio system-gyfan.

30 Canfuom fel a ganlyn: **er gwaethaf oedi wrth benodi i uwch swyddi allweddol, mae'r strwythur sy'n esblygu'n ategu llywodraethu da a chydweithio effeithiol**.

31 Nid yw IGDC wedi gallu cwblhau ei strwythurau corfforaethol a gweithredol oherwydd yr oedi cyn llenwi swyddi gwag uwch swyddogion allweddol yn barhaol.

[3] Digwyddiadau cyfathrebu sefydliadol byw, am 30 munud ar y tro, a gynhelir ar bynciau penodol, er enghraifft atal twyll, ymddygiad sefydliadol a chyflwyno aelodau'r Bwrdd yw TenTalks.

Mae'r oedi wedi cael effaith hefyd ar bortffolios y Prif Weithredwr a rhai Cyfarwyddwyr Gweithredol y bu'n ofynnol iddynt ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol tra bo prosesau recriwtio'n mynd rhagddynt. Mae'r sefydliad yn bwriadu sefydlogi portffolios a chwblhau strwythurau cyn gynted ag y bydd y Tîm Gweithredol llawn yn ei le. Fodd bynnag, er gwaethaf yr oedi yma, ymddengys fod y strwythur sy'n esblygu'n gosod sylfeini da i ategu llywodraethu effeithiol a galluogi cydweithio i ddigwydd.

32 Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol, dan arweiniad Ysgrifennydd y Bwrdd, yn rhoi cymorth da i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gwbl annibynnol ar gyflawni gweithredol ac yn meddu ar linellau atebolrwydd clir at y Cadeirydd ar gyfer busnes y Bwrdd, Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori. Dim ond un lle gwag sydd o fewn y tîm ar hyn o bryd – rôl y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol. Mae cyfrifoldebau'r rôl hon wedi cael eu rhannu dros dro rhwng y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer Risg a'r Gymraeg. Er nad yw'r trefniant hwn wedi cael effaith negyddol ar ansawdd gwasanaethau, efallai na fydd yn gynaliadwy yn y tymor canolig a hir.

## Systemau sicrwydd

33 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n goruchwylio risgiau a pherfformiad sefydliadol ac ansawdd gwasanaethau, yn craffu arnynt ac yn eu herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd effeithiol yn ei le, a adolygir ac a berchnogir yn weithredol gan y Bwrdd;
- a yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i danategu gan systemau priodol ar gyfer rheoli risgiau a pherfformiad; goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a thrin gwybodaeth mewn modd diogel; ac
- a weithredir yn effeithiol i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion archwiliadau ac adolygiadau.

34 Canfuom fod **gan IGDC systemau sicrwydd sy'n effeithiol yn gyffredinol ac sy'n parhau i gryfhau ac esblygu**.

35 Mae gan IGDC Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sy'n fanwl, yn gynhwysfawr ac o ansawdd da, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2022. Mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn, ym mis Mai a mis Tachwedd. Mae'r ymagwedd hon i'w gweld yn rhesymol o ystyried maint a phroffil risg y sefydliad. Fodd bynnag, mae cyfle i gryfhau rôl pwyllgorau o ran monitro meysydd o fewn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd nad oes cynnydd digonol yn cael ei wneud ynddynt i ategu adolygiad chwemisol y Bwrdd o risgiau strategol. Ar ben hynny, wrth i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd esblygu ac aeddfedu dros amser, bydd angen i IGDC sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n weithredol i oleuo a threfnu busnes y Bwrdd a phwyllgorau a sicrhau ffocws parhaus ar amcanion strategol IGDC a'r bygythiadau a chyfleoedd posibl i'w cyflawni.

36 Mae gan IGDC drefniadau rheoli risg effeithiol sy'n tanategu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a'r rheiny'n cael eu hategu gan gyfres gynhwysfawr o bolisïau, gweithdrefnau, templedi, a hyfforddiant i staff ar bob lefel sefydliadol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn disgrifio risgiau corfforaethol y sefydliad yn glir. Er ei bod yn amlinellu camau gweithredu i liniaru risgiau, mae cyfle i ddisgrifio rheolaethau'n fwy eglur. Caiff yr holl risgiau corfforaethol eu hadolygu'n fisol gan y Bwrdd Rheoli, eu dyrannu i'r perchennog risg a phwyllgor sicrwydd perthnasol, a'u hadolygu a'u herio'n weithredol gan aelodau. Ategir y trefniadau hyn gan Grwpiau Rheoli Risg gweithredol.

37 Mae'r sefydliad yn mynd ati'n effeithiol i ddangos bod ei drefniadau rheoli risg yn helpu i leihau lefel y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Fe wnaethom arsylwi ar graffu, herio a thrafodaethau da yn ystod ymarferion 'at wraidd y mater' ar risgiau corfforaethol a gynhaliwyd gan bwyllgorau unigol. Mae adroddiadau rheoli risg rheolaidd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau'n darparu trosolwg dda ar risgiau a uwchgyfeiriwyd, a dynnwyd allan, newidiadau i sgoriau risg, a dadansoddiad o dueddiadau risgiau. Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Medi 2022, uwchgyfeiriwyd cyfanswm o 52 o risgiau at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Erbyn mis Medi 2022, roedd hanner y risgiau naill ai wedi cael eu hisgyfeirio neu wedi cael eu cau, gyda dim ond saith yn dal i fod yn weithredol trwy gydol y cyfnod o 18 mis, sy'n dangos effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y sefydliad

38 Mae gan IGDC drefniadau rheoli perfformiad gweddol effeithiol. Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad i'r Bwrdd trwy'r Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig (APSI), sy'n darparu trosolwg o berfformiad yn erbyn ystod o ddangosyddion allweddol sy'n ymwneud â chyllid, y gweithlu, darparu gwasanaethau, ansawdd, llywodraethu, ymgysylltu a rheoli gwybodaeth. Er yr adroddir ar argaeledd gwasanaethau yn adroddiad blynyddol IGDC nid yw wedi'i gynnwys yn yr APSI. Felly, efallai y byddai IGDC yn dymuno ystyried cynnwys y metrig sefydliadol allweddol hwn yn rheolaidd yn ei adroddiad ar berfformiad. Ar sail chwarterol, mae'r APSI hefyd yn cynnwys diweddariad ar gynnydd ac effaith y sefydliad o ran cyflawni ei amcanion strategol. Ar y cyfan, mae'r adroddiad yn darparu asesiad eglur o berfformiad a hwnnw'n cael ei ategu gan wybodaeth feintiol ac ansoddol dda. Fodd bynnag, mae cyfle i gryfhau'r APSI, gyda naratif mwy eglur ar sefyllfa IGDC o ran ei berfformiad a chamau gweithredu a gymerir i fynd i'r afael â thanberfformiad neu amrywiad dieisiau.

39 Mae IGDC wedi gwneud gwelliannau i'w fframwaith llywodraethu ansawdd i sicrhau y cydymffurfir â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd[4] pan fyddant yn dod i rym. Mae wedi sefydlu adran sicrhau ansawdd a chydymffurfio rheoleiddiol, wedi cyflwyno grwpiau ansawdd, ac wedi datblygu rhaglen o archwiliadau seiliedig-ar-risg o safonau rheoli ansawdd. Cyflwynir adroddiadau

[4] Mae'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd yn cael eu cyflwyno dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

rheolaidd ac effeithiol ar gydymffurfio â safonau ansawdd i'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

40 Mae trefniadau IGDC ar gyfer darparu sicrwydd ynghylch seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth yn weddol resymol. Mae'r sefydliad wedi sefydlu set o amcanion seiberddiogelwch ar gyfer 2022-23 ac mae'r Bwrdd yn cael golwg dda ar wybodaeth am risgiau i seiberddiogelwch. Canfu ein harsylwadau ar sesiwn breifat gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (DGS) fod craffu, herio a thrafodaethau da'n digwydd ymhlith aelodau mewn perthynas ag adroddiad diweddar ar seibergadernid a gafodd y sefydliad.

41 Ymddengys fod IGDC yn gwneud defnydd da o grwpiau a rhwydweithiau Cymru gyfan, megis Rhwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol Cymru Gyfan, a'i ymgysylltiad ehangach â chyrff y GIG i godi proffil risgiau i seiberddiogelwch. Fodd bynnag mae cyfle i gryfhau trefniadau ar gyfer rheoli a/neu liniaru risgiau i seiberddiogelwch a risgiau strategol cymhleth a chyd-ddibynnol eraill ar sail amlasiantaeth. I gyflawni hyn, bydd angen eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ymhlith IGDC a'i sefydliadau partner fel yr Uned Seibergadernid, Llywodraeth Cymru a chyrff iechyd eraill. Ceir cyfle hefyd i IGDC ysgwyddo rôl arweinyddiaeth system i lywio'r agenda seiberddiogelwch ar draws y system iechyd a gofal fel partner digidol dibynadwy.

42 Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth IGDC yn parhau i esblygu. Mae Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth y sefydliad yn cael ei diweddaru i adlewyrchu gweledigaethau, nodau ac amcanion y Timau Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion. Fodd bynnag, fel corff newydd, nid oes digon o eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldebau IGDC mewn perthynas â'r Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol ac mae angen cytundeb ffurfiol ar eu cyfer i leihau amwysedd wrth arwain gwaith llywodraethu gwybodaeth cenedlaethol. Mae Adroddiadau Llywodraethu Gwybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn amlinellu datblygiadau a pherfformiad allweddol mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth. Mae perfformiad IGDC yn erbyn targedau o ran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mehefin 2021 a mis Gorffennaf 2022 wedi bod yn weddol dda, gyda dim ond nifer gyfyngedig o achosion o fethu â chyrraedd y targedau. Mae IGDC wedi cyflawni lefel uchel o ran cydymffurfio â Phecyn Llywodraethu Gwybodaeth Cymru hefyd (98% ar y cyfan), ac mae camau gweithredu ar y gweill i fynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella.

43 Mae gan IGDC drefniadau gweddol effeithiol i fonitro a thracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, gydag adroddiadau'n darparu trosolwg dda o'r statws o ran rhoi'r holl argymhellion ar waith. Mae'r adroddiad ar y Log Gweithredu ar Archwiliadau ym mis Hydref 2022 yn dynodi cynnydd da IGDC o ran cau argymhellion archwilio, gydag 11 allan o 21 o gamau gweithredu wedi'u cau yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Hydref 2022. Rhoddwyd estyniad o chwe mis i roi un cam gweithredu ar waith yn llawn ac mae'r naw cam gweithredu sy'n weddill i gyd ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau erbyn eu dyddiad

targed. Yn gadarnhaol, mae IGDC hefyd yn tracio ac yn adrodd ar gyfleoedd ar gyfer gwella sy'n codi o'n Hadolygiad Llywodraethu Llinell Sylfaen. Fe wnaeth adolygiad Archwilio Mewnol diweddar o'r offeryn tracio argymhellion ddarparu sicrwydd rhesymol ar y cyfan ac adnabod cyfleoedd i wella cysondeb ac effeithiolrwydd y broses dracio.

# Trefniadau cynllunio strategol

44 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau cynllunio strategol IGDC, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei weledigaeth ac amcanion strategol;
- ei Gynllun Tymor Canolig Integredig;
- ei drefniadau cynllunio; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer rhoi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a monitro'r modd y cânt eu cyflawni.

45 Canfuom fod **gan IGDC ddulliau cynllunio effeithiol, ond bod angen gwaith pellach i ddatblygu ei strategaeth dymor hwy ac i gynnwys cerrig milltir a thargedau mewn rhai cynlluniau i'w gwneud yn bosibl monitro cynnydd yn effeithiol.**

## Gweledigaeth, amcanion strategol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

46 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gweledigaeth glir a strategaeth hirdymor yn eu lle ar gyfer y sefydliad. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi'u gwreiddio mewn dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol wedi cael eu datblygu a'u mabwysiadu gan y Bwrdd; ac
- a gafodd y CTCI ei adolygu gan y Bwrdd a'i gyflwyno o fewn y fframiau amser gofynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

47 Canfuom **fod y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022-25 yn rhoi amlinelliad clir o weledigaeth ac amcanion strategol IGDC dros y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, yn awr mae angen iddo gyflymu gwaith ar ddatblygu strategaeth hirdymor y sefydliad.**

48 Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) IGDC 2022-25 yn rhoi amlinelliad clir o'i weledigaeth a'i amcanion strategol dros y tymor byr a chanolig. Mae'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar alluogi ac ategu gwaith i gyflawni amcanion strategol ehangach y GIG yn ogystal â chefnogi'r agenda ehangach o ran iechyd y boblogaeth. Mae'r CTCI hefyd yn amlinellu blaenoriaethau'r sefydliad ei hun o ran arloesi digidol a safoni data'n genedlaethol.

Tanategir amcanion strategol IGDC gan bedwar amcan cenedlaethol a 12 portffolio galluogol sy'n amlinellu'r gwaith sy'n ofynnol i ategu ei weledigaeth. Ategir ei bumed amcan strategol trosfwaol, sef 'dod yn bartner strategol dibynadwy', gan chwe galluogydd pellach.

49 Cafodd y CTCI drafft ei drafod a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn y ffrâm amser ofynnol. Cafodd y cynllun ei dderbyn yn ffurfiol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol at ei gilydd.

50 Fodd bynnag, mae cynnydd IGDC o ran datblygu ei strategaeth hirdymor wedi bod yn araf, yn rhannol oherwydd yr amser a gymerwyd i benodi Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth. Mae IGDC hefyd wedi penderfynu aros nes bod Strategaeth Ddigidol Iechyd a Gofal genedlaethol Llywodraeth Cymru'n cael ei chyhoeddi cyn ei fod yn paratoi ei strategaeth ei hun. Mae rhai o aelodau'r Bwrdd wedi mynegi pryder ynghylch cyflymder y gwaith yma, gan ddynodi na fydd strategaeth hirdymor yn ei lle am beth amser. Serch hynny, un o'r amcanion yn y CTCI yw datblygu strategaeth hirdymor y sefydliad, a dylai penodi Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth sicrhau bod ei datblygiad yn dal i fod yn faes ffocws allweddol.

## Trefniadau cynllunio

51 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol ar y broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw egwyddorion gofal iechyd darbodus a seiliedig-ar-werthoedd yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol; ac
- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol wedi cael eu datblygu gan gynnal cyswllt â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol.

52 Canfuom fod **gan IGDC ymagwedd dda at gynllunio, a bod trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau i gryfhau.**

53 Mae gan IGDC drefniadau effeithiol i oruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Ceir proses gynhwysfawr i gynllunio busnes mewnol, a arweinir gan y Grŵp Cynllunio a Rheoli Perfformiad ac a ategir gan y Tîm Cynllunio. Canfuom dystiolaeth o ymgysylltu da â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, yn ogystal â defnydd da o werthuso a dadansoddi data i ddeall a diffinio blaenoriaethau. Mae IGDC wedi paratoi Cynllun Busnes manwl, sy'n seiliedig ar y CTCI, ac mae'r Tîm Cynllunio wedi ymgysylltu'n dda â'r holl feysydd gweithredol i adnabod amcanion manwl, cerrig milltir a swyddogion atebol. Mae hefyd wedi asesu'r gofynion o ran adnoddau a chapasiti i sicrhau bod y Cynllun Busnes yn realistig ac y gellir ei gyflawni.

54 Mae IGDC yn ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Cafodd y CTCI 2022-25, y Strategaeth Ymchwil ac

Arloesi 2022-25 a'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol 2022-25 eu datblygu gan gynnal cyswllt â rhanddeiliaid mewnol allweddol, gan gynnwys uwch reolwyr a staff trwy gyfres o weithdai. Rhoddwyd cyfleoedd hefyd i aelodau'r Bwrdd wneud sylwadau ar y strategaethau a'r cynlluniau hyn trwy nifer o Sesiynau Datblygu'r Bwrdd. Roedd aelodau'r Bwrdd yn gadarnhaol ynglŷn â'u hymgysylltiad cyfunol wrth ddatblygu'r CTCI, gan ddynodi y bu craffu, herio a thrafod adeiladol trwy gydol y broses a helpodd i gryfhau'r cynllun cyn iddo gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd. Fe ymgysylltodd IGDC yn frwd â sefydliadau ehangach y GIG yn ystod y broses o ddatblygu'r CTCI 2022-25 hefyd, yn uniongyrchol a thrwy ei aelodaeth o amryw grwpiau Cymru gyfan. Fodd bynnag, bydd angen i'r Bwrdd geisio mwy o sicrwydd bod y sefydliad yn rheoli'r nifer gynyddol o flaenoriaethau digidol ar draws GIG Cymru.

55 Ymddengys fod ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn gwella, ac mae perthnasoedd rhwng IGDC a chyrff y GIG yn cryfhau. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i nodi fel ysgogydd strategol allweddol yn y CTCI. Mae Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y sefydliad yn amlinellu ei ddull bwriadedig o ymgysylltu ac yn nodi nifer o egwyddorion ac amcanion strategol i alluogi'r sefydliad i gael ei ystyried yn 'bartner digidol dibynadwy'. Mae IGDC yn monitro ac yn adrodd ar ei weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy'r APSI. Mae adroddiad mis Medi 2022 i'r Bwrdd yn dangos lefelau uchel o weithgarwch yn y maes hwn, yn enwedig mewn perthynas â chyfarfodydd adolygu ar lefel gwasanaethau, a chyfarfodydd ymgysylltu strategol. Fodd bynnag, mae cyfle i adrodd yn fwy ar y cwestiwn i ba raddau y mae partneriaid a rhanddeiliaid allanol yn ystyried bod IGDC yn 'bartner digidol dibynadwy'. Bydd penodiad diweddar Pennaeth Ymgysylltu'n sicrhau ffocws strategol rhagweithiol ar y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a rhyngwyneb y sefydliad â'i bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

56 Mae IGDC yn cydnabod ei rôl hollbwysig i roi cymorth i ddarparu gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd. Mae'r llwyfan Adnodd Data Cenedlaethol, a letyir gan IGDC ac sy'n amcanu at ddarparu ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ddata iechyd a gofal yng Nghymru, yn hanfodol i'r ymagwedd hon. Mae CTCI y sefydliad yn cynnwys portffolio 'Gwerth o Ddata' sy'n cyd-fynd ag egwyddorion gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd ac yn darparu enghreifftiau o sut y mae'r sefydliad yn helpu i ysgogi gwerth o ddata ar gyfer deilliannau gwell i gleifion a chynllunio gwasanaethau'n well. Mae IGDC hefyd yn cydweithio'n agos gyda Chanolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru i alluogi Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i roi ymagweddau gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd ar waith yn eu sefydliadau eu hunain.

## Trefniadau cyflawni a monitro

57 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r broses, yn craffu ar y broses ac yn herio'r broses o roi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a'u cyflawni. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys cerrig milltir, targedau a deilliannau clir sydd o gymorth i fonitro ac adrodd; ac

- a yw’r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd tuag at gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

58 Canfuom fel a ganlyn: **er bod strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys amcanion clir, mae diffyg cerrig milltir targed mewn rhai’n rhwystr i fonitro effeithiol.**

59 Mae gan strategaethau a chynlluniau corfforaethol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ystod 2022 berchnogaeth eglur gan Gyfarwyddwyr Gweithredol. Maent yn cynnwys amcanion strategol eglur a dealladwy, a danategir gan fesurau deilliant neu gamau gweithredu i’w cyflawni. Fe’u hategir hefyd gan drefniadau llywodraethu, cyflawni ac adrodd priodol. Er y tanategir y CTCI 2022-25 gan Gynllun Busnes eglur sy’n cynnwys dyddiadau a cherrig milltir targed, nid yw’n ymddangos bod y lefel hon o wybodaeth ar gael ar gyfer strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill, megis y Cynllun Ystadau, y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, a’r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. Mae hyn yn rhwystr i fonitro cynnydd yn effeithiol ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i’r Bwrdd a’i bwyllgorau oruchwylio’r broses gyflawni a chraffu arni’n ddigonol **(Argymhelliad 1)**.

60 Mae Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig (APSI) IGDC yn darparu trosolwg chwarterol ar gynnydd o ran cyflawni amcanion strategol y sefydliad. Mae’r ‘cynllun ar dudalen’ yn yr adroddiad yn darparu trosolwg ddefnyddiol o gynnydd yn erbyn pob portffolio sy’n cyd-fynd â phedair cenhadaeth strategol IGDC. Ategir hyn gan ddiweddariad naratif mwy manwl sy’n gwneud sylwadau ar gyflawni, effaith fwriadedig, a sefyllfaoedd nodedig. Mae’r adroddiad hefyd yn darparu asesiad o risg i gyflawni amcanion strategol y sefydliad ac yn cynnwys sylwebaeth am gamau lliniaru yn awr ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae cyfle i wella trefniadau’r sefydliad ar gyfer darparu sicrwydd i’r Bwrdd bod strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cyflawni’r effaith a’r manteision a ddymunir.

# Rheoli adnoddau ariannol

61 Yn yr adran hon o’r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau IGDC ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gyflawni amcanion ariannol allweddol;
- ei reolaethau ariannol; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol a’i fonitro.

62 Canfuom fod **gan IGDC ymagwedd effeithiol ar y cyfan at gynllunio, monitro ac adrodd ariannol; fodd bynnag, mae model cyllido’r sefydliad yn cyflwyno risgiau y mae angen eu rheoli’n weithredol yn y tymor canolig a hir.**

## Amcanion ariannol

63 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan IGDC drefniadau effeithiol i gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried a yw IGDC:

- wedi cyflawni ei amcanion ariannol ar gyfer 2021-22, ac a yw ar y trywydd iawn i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022-23; ac
- yn meddu ar gynllun ariannol eglur a chadarn, sy'n cynnwys cynlluniau arbedion a gwella costau realistig a chynaliadwy.

64 Canfuom fod **IGDC wedi cyflawni ei amcanion ariannol ar gyfer 2021-22 a'i fod yn rhagweld y bydd yn adennill costau ar gyfer 2022-23. Er bod ganddo drefniadau cynllunio ariannol effeithiol yn gyffredinol, mae ei fodel cyllido ar gyfer buddsoddi mewn blaenoriaethau digidol a'i ddibyniaeth ar arbedion anghylchol yn achosi risg.**

65 Cyflawnodd IGDC ei amcanion ariannol i adennill costau ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf yn 2021-22. Er bod IGDC yn rhagweld sefyllfa adennill costau ar y cyfan ar gyfer 2022-23, mae wedi adnabod nifer o faterion allweddol a all effeithio'n negyddol ar y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys: y sefyllfa o ran swyddi craidd gwag a recriwtio; mwy o ofynion o ran seiberddiogelwch; mentrau gwella (e.e. mabwysiadu gwasanaethau cwmwl a dull sy'n canolbwyntio ar gynnyrch); a phwysau o ran costau eithriadol gan gynnwys chwyddiant digidol.

66 Cafodd Cynllun Ariannol IGDC ar gyfer 2022-23 ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 ac mae'n ategu strategaeth gwasanaethau a buddsoddi'r sefydliad a amlinellir yn y CTCI. Mae'r sefydliad wedi cael cyfanswm o £152.257 miliwn mewn cyllid refeniw ac o hwnnw:

- daeth £110.463 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru, o Gytundebau Lefel Gwasanaeth GIG Cymru, Trwyddedu Digidol Cymru gyfan, ac incwm amrywiol arall;
- cafwyd £10.258 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ymateb i COVID-19; a hefyd
- cafwyd £21.356 miliwn fel rhan o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF)[5].

67 Fodd bynnag, canfuom nifer o faterion mewn perthynas â chymhlethdod model y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol sy'n achosi heriau i gyflawni cynlluniau IGDC mewn modd amserol ac effeithlon. Er enghraifft:

[5] Cronfa gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol a ddefnyddir i ysgogi gwelliant digidol ar draws y themâu allweddol canlynol: trawsnewid gwasanaethau digidol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus, moderneiddio dyfeisiau, newid i wasanaethau cwmwl, seiberddiogelwch a seibergadernid

- mae dyrannu cyllid yn flynyddol yn ei gwneud yn anodd i IGDC recriwtio i swyddi ar gyfer rhaglenni a phrosiectau amlflwyddyn;
- mae oedi cyn cael llythyrau cyllido gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod IGDC wedi cyllido rhaglenni gan ysgwyddo risg; a
- daeth adolygiad diweddar Llywodraeth Cymru o gyllideb y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol i'r casgliad bod oddeutu £0.977 miliwn wedi'i nodi ar gyfer ei ailbroffilio neu ei ddychwelyd, a effeithiodd yn uniongyrchol ar dri phrosiect.

Cafodd y risgiau a oedd yn ymwneud â'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol eu tynnu allan o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod mis Hydref 2022 ar ôl cael y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'n glir beth yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r risgiau yn y tymor canolig a hir sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd y model cyllido. **(Argymhelliad 2a)**. Bydd y diffyg model cyllido cynaliadwy a sicrwydd ynghylch buddsoddi'n effeithio ar uchelgeisiau'r sefydliad i ddod yn bartner digidol dibynadwy. Fodd bynnag, rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i adolygu'r model cyllido erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

68 Mae Cynllun Ariannol IGDC yn disgrifio targed arbedion o £2.457 miliwn y mae £1.139 miliwn ohono'n arbedion cylchol ac £1.318 miliwn yn arbedion anghylchol. Ym mis Tachwedd 2022, nododd IGDC ei fod wedi mynd y tu hwnt i'w darged arbedion yn bennaf oherwydd swyddi gwag yn y sefydliad. Er bod hon yn ymddangos fel be bai'n sefyllfa gadarnhaol o ran perfformiad mewn perthynas ag arbedion yn ystod y flwyddyn, ceir risg i gyrraedd targedau arbedion mewn blynyddoedd yn y dyfodol pe bai'r sefydliad yn recriwtio i'r swyddi gwag hynny. Felly gallai'r diffyg mewn arbedion o ganlyniad i hynny, ynghyd â meysydd twf heb eu cyllido megis seiberddiogelwch a storio yn y cwmwl, effeithio'n negyddol ar gynaliadwyedd ariannol IGDC yn y dyfodol **(Argymhelliad 2b)**.

## Rheolaethau ariannol

69 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer dyrannu, awdurdodi, cofnodi a rheoli'r defnydd o'i adnoddau ariannol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau y cydymffurfir â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo;
- a yw'r Pwyllgor Archwilio'n cynnal goruchwyliaeth briodol ar drefniadau a pherfformiad mewn perthynas â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion ac atal twyll;
- a oes trefniadau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith; ac
- a gyflwynwyd datganiadau ariannol ar amser, ac a oeddent yn rhai heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

70 Canfuom fod **gan IGDC reolaethau ariannol sy'n effeithiol at ei gilydd.**

71 Yn ystod 2022-23, fe gwblhaodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o systemau ariannol craidd a roddodd sgôr sicrwydd rhesymol. Canfuom adroddiadau priodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar golledion a thaliadau arbennig; archebion prynu gwerth uchel a chronnol; caffael; a chydymffurfio â Chynlluniau Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Fe arsylwom ni ar oruchwyliaeth a chraffu priodol ar yr wybodaeth a gyflwynwyd.

72 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gan y Tîm Atal Twyll Lleol hefyd. Mae adroddiad mis Hydref 2022 yn amlygu amrywiaeth o weithgarwch a oedd ar y gweill i gyflawni'r Cynllun Atal Twyll ar gyfer 2022-23. Fodd bynnag, mae hefyd yn dynodi bod swydd wag o fewn y tîm. Tra bo'r broses o recriwtio i'r swydd hon yn mynd rhagddi, gallai'r gostyngiad dros dro yn nifer y staff gael effaith ar y gwaith arfaethedig sy'n weddill ar gyfer 2022-23.

73 Cafodd datganiadau ariannol IGDC eu paratoi i safon dda a'u cyflwyno i'w harchwilio erbyn y terfyn amser a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 29 Ebrill 2022. Cafodd y rhain eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 24 Mai 2022. Ni chanfu ein harchwiliad unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ac fe roddom ni farn archwilio ddiamod.

## Trefniadau monitro ac adrodd

74 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio perfformiad ariannol y sefydliad, yn craffu arno ac yn ei herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw adroddiadau i'r Bwrdd yn rhoi darlun clir o sefyllfa ariannol y sefydliad, yn ogystal â'r heriau a risgiau ariannol allweddol a chamau lliniaru a gymerwyd; ac
- a yw aelodau'r Bwrdd yn herio asesiadau parhaus o'r sefyllfa ariannol yn ddigonol.

75 Canfuom fod **craffu ariannol yn dda, ond bod angen cryfhau adroddiadau ar raglenni arbedion sy'n ymestyn dros y tymor canolig a hir.**

76 Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar berfformiad ariannol. Mae adroddiadau cyllid yn darparu digon o wybodaeth i'w gwneud yn bosibl craffu a herio ac maent yn cynnwys rhai manylion mewn perthynas â chynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion. Fodd bynnag, canfuom achosion lle mae'r adroddiad cyllid a'r papur briffio ariannol sy'n cyd-fynd ag ef yn dyblygu gwybodaeth. Rydym yn nodi bod IGDC wedi dechrau defnyddio'r adroddiad cyllid i grynhoi a chyfosod y papur briffio ariannol ac amlygu materion allweddol i'w hystyried gan y Bwrdd ers mis Tachwedd. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a ddylai barhau yn y dyfodol.

77 Er bod gweithgarwch i graffu ar berfformiad ariannol a'i herio'n weddol fyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ymddengys fod gan aelodau'r Bwrdd ddealltwriaeth dda am amcanion, risgiau a heriau ariannol IGDC, ac effaith arbedion anghylchol ar gynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. Fodd bynnag, o ystyried y risgiau ariannol hyn, mae cyfleoedd i aelodau'r Bwrdd geisio mwy o sicrwydd ynghylch

datblygu a chyflawni arbedion cylchol yn y tymor canolig a hir **(Argymhelliad 2b)**. Nid yw'n ofynnol i IGDC benodi Aelod Annibynnol ag arbenigedd ariannol i'w Fwrdd. Er nad yw hyn yn effeithio ar ansawdd goruchwyliaeth ariannol ar hyn o bryd, efallai yr hoffai IGDC barhau i adolygu hyn pe cyfyd y cyfle yn y dyfodol i recriwtio Aelod Annibynnol â sgiliau penodol yn y maes hwn.

# Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd ac asedau ffisegol eraill

78 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn lefel-uchel am drefniadau IGDC i reoli ei adnoddau ehangach, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gefnogi lles staff (sylwer y byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau'r sefydliad ar gyfer cynllunio'r gweithlu);
- ei drefniadau i reoli ei adnoddau digidol; a hefyd
- ei drefniadau i reoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill.

79 Canfuom fod **gan IGDC ymrwymiad da i gefnogi lles staff a dulliau strategol da ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol a'r ystâd. Fodd bynnag, mae angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli asedau ffisegol.**

## Cefnogi lles staff

80 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol i gefnogi lles staff. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw mecanweithiau i geisio barn staff am eu hanghenion o ran lles yn effeithiol, ac a oes camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i ymateb i ganfyddiadau; ac
- a yw camau gweithredu i gefnogi a gwella lles staff yn cael eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd, gan gynnwys camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'n hadroddiad ar sut y gwnaeth cyrff y GIG gefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19[6].

81 Canfuom fod **trefniadau IGDC yn rhoi peth sicrwydd i'r Bwrdd bod lles staff yn cael ei gefnogi'n ddigonol. Fodd bynnag, mae angen i risgiau o ran swyddi gwag gael eu rheoli'n dda i sicrhau nad yw hyn yn effeithio'n negyddol ar les staff presennol ac nad yw'n rhwystr i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y GIG ehangach.**

82 Mae CTCI a Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol IGDC yn nodi'n glir bod lles staff ac ymgysylltu â staff yn flaenoriaeth sefydliadol allweddol. Mae IGDC yn amcanu at helpu staff i ddatblygu deallusrwydd emosiynol, lles a sgiliau personol

[6] Archwilio Cymru, Gofalu am y gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19, Hydref 2021

ochr yn ochr â'u cymhwysedd technegol i ddarparu'r gwasanaeth gorau un. Mae'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn nodi nifer o ganlyniadau allweddol i gyflawni hyn, gan adeiladu ar fentrau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig

83 Mae gan IGDC drefniadau da i adnabod, hyrwyddo, cyflawni a gwerthuso mentrau arloesol i wella iechyd a lles staff. Er bod y modd yr adroddir ar weithgarwch iechyd a lles yn dda, nid yw adroddiadau'n darparu sicrwydd digonol ei fod yn cyflawni'r effaith a ddymunir. Gellir mynd i'r afael â hyn trwy roi trefniadau ar waith i alluogi Aelodau Annibynnol i ymgysylltu'n uniongyrchol â staff i bwyso a mesur eu morâl, a datblygu dealltwriaeth well am y materion o ddydd i ddydd sy'n effeithio arnynt.

84 Fe wnaeth ein hadroddiad Gofalu am y Gofalwyr nifer o argymhellion i gyrff iechyd ynghylch lles staff. Mae IGDC yn gwneud cynnydd da o ran rhoi'r argymhellion hyn ar waith – mae pedwar wedi cael eu cwblhau hyd yma, ac mae'r ddau arall yn dal i fynd rhagddynt neu wedi cael eu cwblhau'n rhannol.

85 Mae IGDC yn profi heriau recriwtio sylweddol mewn marchnad hynod gystadleuol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn disgrifio swyddi gwag fel risg allweddol/uchel, ac yn amlinellu'r effeithiau negyddol posibl ar les staff, yn ogystal ag ar ganlyniadau gwasanaethau a graddfeydd amser, a allai arwain yn y pen draw at oedi cyn rhoi cymorth gyda systemau ac ymarferoldeb newydd i ddefnyddwyr GIG Cymru. Er bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn enwi ystod o gamau gweithredu cyfredol ac yn y dyfodol i liniau'r risg, mae'r duedd yn sgôr y risg wedi aros yr un fath ers mis Ionawr 2022. Er bod nifer y staff wedi cynyddu, ac y bydd yn dal i wneud hynny yn ystod 2022-23, bu cynnydd bach ond cyson mewn trosiant staff, a oedd yn 8.35% ym mis Awst 2022 o'i gymharu â tharged o 7.5%. Felly bydd angen i IGDC fonitro ei gyfradd swyddi gwag a throsiant staff yn fanwl wrth i'r sefydliad barhau i dyfu, ac wrth i fwy o alwadau gael eu gosod ar ei wasanaethau i sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn cael effaith anffafriol ar les staff presennol a darparu gwasanaethau ar gyfer y GIG ehangach yng Nghymru.

## Rheoli adnoddau digidol

86 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan IGDC drefniadau priodol ac effeithiol i reoli ei adnoddau digidol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes strategaeth ddigidol a gymeradwywyd gan y Bwrdd sy'n ceisio harneisio a manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi modelau gofal newydd a ffyrdd newydd o weithio; ac
- a yw manteision sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn technoleg ddigidol yn cael eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd.

87 Canfuom fod **strategaeth ddigidol IGDC ar gyfer y tymor byr a chanolig wedi'i chyfleu'n eglur yn y CTCI. Er y cyflwynir adroddiadau da ar gyflawni portffolios prosiectau digidol, mae angen mwy o ffocws ar fonitro ac adrodd ar wireddu manteision.**

88 Er nad oes gan IGDC Strategaeth Ddigidol ar wahân ar hyn o bryd, mae ei CTCI yn rhoi disgrifiad clir o'r ymagwedd strategol a gymeradwywyd gan y Bwrdd sy'n amlinellu pum cenhadaeth strategol a danategir gan 12 portffolio. Ceir aliniad clir rhwng nodau strategol a gweithredol ac adnabod galluogwyr i gyflawni blaenoriaethau cyrff ehangach y GIG ar gyfer gwasanaethau clinigol. Mae cynlluniau'n cynnwys cerrig milltir manwl ar gyfer 2022-23 a rhai blynyddol ehangach ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Mae IGDC wrthi'n gweithio ar strategaeth ddigidol fwy hirdymor ar wahân ar hyn o bryd a fydd yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Ddigidol Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2023.

89 Mae bwriad strategol IGDC yn cefnogi canfyddiadau'r Adolygiad o Seilwaith TG Cymru Gyfan 2020, a amlygodd yr angen i newid systemau digidol GIG Cymru a oedd yn mynd yn hen. Mae'n disgrifio'r angen am fuddsoddiad hirdymor mewn seilwaith modern, dibynadwy a'r angen i gofleidio'r defnydd o wasanaethau cwmwl ac ymagwedd pensaernïaeth agored. Pwysleisir buddsoddiad i gyd-fynd â hynny yn hytrach nag atebion cyflym, byrdymor ar gyfer meddalwedd a chaledwedd, sy'n dwyn eu risgiau eu hunain.

90 Caiff manteision technoleg ddigidol eu nodi ym 'Mapiau Trywydd' IGDC. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r manteision hynny mae'n rhaid wrth seilwaith diogel, dibynadwy sy'n sicrhau yn y pen draw bod data ar gael. Mae IGDC wedi adnabod yr achos dros fuddsoddiad mwy hirdymor i aros gyfuwch â'r galw a lliniaru risgiau o fethiant yn sgîl diweddariadau i feddalwedd, materion cymorth a bygythiadau sy'n gysylltiedig â seiber.

91 Mae Strategaeth Cwmwl y sefydliad yn nodi'r achos dros barhau i adeiladu seilwaith a llwyfannau technoleg sy'n gallu tyfu yn unol â'r anghenion, sy'n arloesol ac sy'n ystwyth i gefnogi gofynion o fewn IGDC ac ar draws y GIG yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn ymwneud ag ymagwedd cwmwl-yn-gyntaf gyda throsolwg ar linellau amser ar gyfer mabwysiadu llwythi gwaith newydd a phresennol erbyn 2024, a danategir gan y nodau yng Nghynllun Busnes IGDC. Mae IGDC hefyd yn sefydlu grŵp llywodraethu cwmwl mewnol – y Cyngor Cwmwl – i oruchwylio'r newid i wasanaethau Cwmwl.

92 Mae Diweddariad Trosolwg Rhaglenni Digidol rheolaidd yn cael ei ddarparu ar gyfer y Bwrdd Rheoli, a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol. Mae'r adroddiad yn amlygu cynnydd yn erbyn rhaglenni digidol cenedlaethol megis yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR), Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, a System Adrannau Achosion Brys Cymru (WEDS). Mae'r Diweddariad Portffolio Prosiectau Cynllunio Corfforaethol a atodir wrth yr adroddiad yn darparu trosolwg ddefnyddiol ar y cynnydd ar gyfer pob rhaglen sy'n cynnwys gwybodaeth am statws pob prosiect, camau gweithredu, swyddogion cyfrifol, a chamau lliniaru. Mae'r adroddiad diweddaraf a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2022 yn nodi bod dwy o'r 19 o raglenni wedi'u categoreiddio'n wyrdd (da, gall fod angen mireinio), 16 yn ambr (angen sylw) ac un yn goch (problemus iawn). Fodd bynnag, mae cyfle i wella'r adroddiadau hyn i ddarparu mwy o fanylion am heriau, risgiau a dwyn manteision bwriadedig i IGDC a'r system iechyd a gofal ehangach.

93 Ym mis Ionawr 2023, bydd IGDC yn caffael dwy raglen ddigidol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) a'r System Gwybodeg Radioleg (RISP). Wedyn bydd hi'n ofynnol i'r sefydliad reoli'r broses o roi'r rhaglenni hyn ar waith a'u risgiau cysylltiedig.

94 Mae gan lawer o'r rhaglenni cenedlaethol a letyir gan IGDC drefniadau llywodraethu rhaglen allanol sy'n arwain at beth amwysedd a diffyg eglurder o ran atebolrwydd a chyfrifoldeb am eu cyflawni. O ganlyniad, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ac IGDC gomisiynu adolygiad annibynnol o lywodraethu ym mis Tachwedd 2022 i symleiddio'r trefniadau hyn a darparu mwy o eglurder mewn perthynas â hwy.

95 Mae IGDC yn lletya nifer o systemau ariannol cenedlaethol a ddefnyddir gan sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru. Rydym yn adolygu'r amgylchedd TGCh a rheolaethau ar gymwysiadau a gymhwysir i'r systemau hyn yn flynyddol at ddibenion darparu sicrwydd ar gyfer barnau archwilio ariannol y GIG. Fe wnaeth y rheolaethau a archwiliwyd gennym yn 2020-21 ein sicrhau bod gwerthoedd ariannol a gynhyrchwyd gan y systemau'n debygol o fod heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, er y gellid cryfhau rhai rheolaethau. Cafodd ein canfyddiadau eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd mewn sesiwn breifat ym mis Hydref 2021, ac mae IGDC wedi paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella. Rydym wedi cwblhau ein hadolygiad ar gyfer 2021-22 yn ddiweddar a byddwn yn cyflwyno ein canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Chwefror 2023.

## Rheoli'r ystâd ac asedau ffisegol eraill

96 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan IGDC drefniadau priodol ac effeithiol i reoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes strategaethau a chynlluniau a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar gyfer rheoli ystadau'r sefydliad a'i asedau ffisegol ehangach;
- a oes trefniadau priodol i'r Bwrdd adolygu prosiectau a rhaglenni cyfalaf sylweddol, craffu arnynt, eu herio a'u cymeradwyo; ac
- a oes trefniadau priodol i'r Bwrdd gynnal goruchwyliaeth briodol ar gyflwr yr ystâd ac asedau ffisegol eraill.

97 Canfuom fel a ganlyn: **er bod gan IGDC ymagwedd strategol dda at reoli a datgarboneiddio ystadau, mae angen gweithredu i gryfhau sicrwydd y Bwrdd ynghylch rheoli asedau ffisegol.**

98 Mae IGDC wedi datblygu Cynllun Ystadau tair blynedd, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2022. Mae'r cynllun yn nodi'r angen i adolygu a diffinio'r gofynion yn y dyfodol lle mae ystadau yn y cwestiwn o ran lleoliad, arwynebedd/lle sy'n ofynnol, ac addasrwydd yng ngoleuni nifer o ffactorau gan gynnwys: yr agenda ddatgarboneiddio, effaith pandemig COVID-19 ar arferion gweithio, cyfleoedd i resymoli ystadau, trefniadau prydlesu cyfredol, a chreu mannau addas i gefnogi cydweithio gyda sefydliadau partner. Ym mharagraff 59, rydym yn gwneud sylw

ynglŷn â’r diffyg cerrig milltir a thargedau clir mewn rhai strategaethau corfforaethol gan gynnwys y Cynllun Ystadau, sy’n rhwystr i fonitro cynnydd yn effeithiol.

99 Mae IGDC wedi datblygu Strategaeth a Chynllun Cyflawni Datgarboneiddio hefyd mewn ymateb i Gynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021. Mae’r cynllun cyflawni wedi’i fwriadu i alluogi IGDC i gyrraedd targedau GIG Cymru, sef gostwng allyriadau 16% a 34% yn 2025 a 2030 yn y drefn honno. Mae IGDC wedi sefydlu Grŵp Datgarboneiddio, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r timau Ystadau, Seilwaith, Gwasanaethau Masnachol, Cyllid a Phobl a Datblygu Sefydliadol.

100 Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cael Adroddiad Datgarboneiddio, Ystadau a Chydymffurfio rheolaidd, sy’n rhoi amlinelliad clir o wybodaeth am ystadau, cynnydd yn erbyn Cynllun Datgarboneiddio IGDC, ardystiad ISO 14001, ystadegau cydymffurfio, ac ystadegau iechyd a diogelwch. Canfuom fod perfformiad IGDC yn y meysydd hyn yn gadarnhaol at ei gilydd.

101 Mae IGDC wedi sefydlu rhaglen o arolygiadau i wirio’r modd y mae’n cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd, diogelwch ac amgylcheddol, lleihau a dileu risgiau a all achosi digwyddiad, a sicrhau cydymffurfiaeth archwilio â safonau rheolaeth amgylcheddol. Mae adroddiadau arolygu’n darparu crynodeb o’r arolygiad ochr yn ochr â rhestr wirio sy’n nodi’r meini prawf asesu a chamau gweithredu sy’n ofynnol i fynd i’r afael â materion neu risgiau a adnabuwyd. Caiff y canfyddiadau o adroddiadau Arolygu eu crynhoi yn yr adroddiadau Datgarboneiddio, Ystadau a Chydymffurfio a ddarperir ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

102 Yn ystod ein hadolygiad ni, roedd y Tîm Atal Twyll Lleol yn ymchwilio i achos tybiedig o ddwyn offer TG IGDC. Fel rhan o’i ymateb i’r digwyddiad, rhoddodd IGDC gomisiwn i’r gwasanaeth Archwilio Mewnol gwblhau adolygiad ymgynghorol o reoli’r stoc TG a wnaeth nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ystyried yr adroddiad yn ystod cyfarfod preifat ym mis Hydref 2022. Heblaw am adroddiadau Archwilio Mewnol yn y maes hwn, nid yw'r Bwrdd na'i Bwyllgorau’n cael sicrwydd arall ar hyn o bryd bod asedau ffisegol IGDC yn cael eu rheoli’n dda **(Argymhelliad 3)**.

# Atodiad 1

## Ymagwedd archwilio

Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r dull a fabwysiadwyd gennym ar gyfer gwneud ein gwaith asesu strwythuredig yn IGDC.

**Arddangosyn 2: ymagwedd archwilio**

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Arsylwadau | Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol;<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd; a'r<br>• Fforwm Partneriaeth Lleol. |
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylchoedd Gorchwyl, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau o Fuddiannau, a Chofrestrau o Roddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI;<br>• dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• Adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a materion ariannol y sefydliad;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac |

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion ac Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru;<br>• Y Prif Weithredwr;<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd; a'r<br>• Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol. |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 3: ymateb y rheolwyr**

| Argymhellion | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A1 Er bod y CTCI 2022-25 a'r Cynllun Busnes cysylltiedig wedi'u hategu gan ddyddiadau a cherrig milltir targed clir, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer cynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill. Felly dylai IGDC sicrhau bod yr holl gynlluniau a strategaethau corfforaethol wedi'u tanategu gan gynlluniau cyflawni manwl sy'n cynnwys dyddiadau a cherrig milltir targed i hwyluso proses effeithiol i fonitro cynnydd a sicrhau | Bydd IGDC yn sicrhau bod gan gynlluniau a strategaethau a gyflwynir i Fwrdd yr AIA ddyddiadau a cherrig milltir targed i sicrhau bod cynnydd yn gallu cael ei fonitro gan aelodau'r Bwrdd.<br>Os cymeradwyir cynllun neu strategaeth gan Fwrdd yr AIA, byddwn yn sicrhau bod cynllun cyflawni cysylltiedig yn cael ei gynnwys ar flaenraglen waith Bwrdd yr AIA ar gyfer goruchwyliaeth. | Rhagfyr 2023 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhellion | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| sicrwydd a chraffu priodol ar lefel y Bwrdd. | | | |
| A2 Mae angen i drefniadau ar gyfer rheoli risgiau yn y tymor canolig a hir i gyllid ac arbedion fod yn fwy gweladwy ar lefel y Bwrdd. Felly dylai IGDC sefydlu trefniadau i:<br>c. dangos, trwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ei fod wrthi'n rheoli'r risgiau yn y tymor canolig a hir sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd model y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol; a<br>a. darparu mwy o sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch datblygu a chyflawni arbedion cylchol yn y tymor canolig a hir i gryfhau | Mae model cyllido cynaliadwy wedi cael ei gynnwys o fewn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd dan genhadaeth strategol 5. Bydd cynnydd yn erbyn bylchau allweddol o ran rheolaeth a sicrwydd a chamau gweithredu gofynnol yn cael ei fonitro gan Fwrdd yr AIA trwy drefn adrodd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. | Ionawr 2023<br><br>Mawrth 2023 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Argymhellion | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| cynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. | Bydd IGDC yn adrodd wrth y bwrdd ar yr opsiynau a chyflawni mewn perthynas ag arbedion dros y tymor canolig a hwy fel rhan o'r adroddiad ariannol. | | |
| A3 Ar wahân i adroddiadau Archwilio Mewnol yn y maes hwn, nid yw'r Bwrdd na'i bwyllgorau'n cael sicrwydd arall ynghylch rheoli asedau ffisegol IGDC. Felly, dylai IGDC fynd ati o bryd i'w gilydd i ddarparu adroddiadau sicrwydd ar gyfer y Bwrdd neu'r pwyllgor perthnasol bod ei asedau ffisegol (dros werth penodol a/neu mewn perygl o gael eu camddefnyddio) yn cael eu rheoli'n dda. | Bydd IGDC yn sicrhau bod adroddiadau ar Ystadau a Chydymffurfio'n parhau i fod yn eitem sefydlog yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Yn ogystal â sicrhau bod IGDC yn parhau i ddilysu'r holl asedau cyfalaf cyfredol yn flynyddol, byddwn hefyd yn amcanu at ddarparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd sy'n amlygu asedau a ychwanegwyd ac a waredwyd. | Ionawr 2023 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid / Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.